PWY YW PWY O'R LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS WHO'S WHO

Mike Pickering OBE, Cadeirydd y Corff Llywodraethol Mae Mike yn ŵr busnes llwyddiannus ac yn bartner mewn cwmni cludiant ffyrdd yn ogystal â ffermwr. Mae wedi bod â diddordeb byw mewn addysg ers mwy na 25 mlynedd, ac wedi gwasanaethu ar bwyllgorau cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddi. Y mae ganddo flynyddoedd o gysylltiadau ag amaethyddiaeth ac arferai fod yn Gadeirydd y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth tros Gymru, gan adrodd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cyflogaeth, Tâl a Iechyd & Diogelwch, a'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu.		**Mike Pickering OBE, Chair of the Governing Body** Mike is a successful businessman and partner in a road haulage company as well as a farmer. He has had strong interface with education for over 25 years, and served on national and local committees relating to education and training. He has long established links with agriculture, and was Chair of the Agricultural Advisory Panel for Wales, reporting to the Secretary of State for Wales. He is also Chair of the Employment Policy, Remuneration and Health & Safety Committee, and the Search and Governance Committee.
Sioned Bowen, Is-Gadeirydd y Corff Llywodraethol Daw Sioned ag arbenigedd addysgol amrywiol a hynod lwyddiannus i Llysfasi. Fel cyn Gyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes gyda Chyngor Sir Ddinbych, a chyn AEM, y mae'n dod â chyfoeth o brofiad sy'n ymwneud â dysgwyr o bob oed yn ogystal â dealltwriaeth gadarn o anghenion dwyieithog y gymuned a wasanaethir gan y Coleg. Yn ogystal â hyn, mae Sioned yn ymgynghorydd addysgol rhyngwladol a chenedlaethol, ac yn siaradwraig mewn cynadleddau, ac mae ganddi brofiadau eang o rwydweithio a gweithio mewn tîm. Mae Sioned hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Ystadau, ac yn aelod o'r Bwrdd Academaidd a'r Grŵp Strategol.		**Sioned Bowen, Vice-Chair of the Governing Body** Sioned brings to Llysfasi a diverse and highly successful educational expertise. As a former Director of Lifelong Learning for Denbighshire County Council, and former HMI, she has brings a wealth of experience relating to learners of all ages as well as a firm understanding of the bilingual needs of the community served by the College. In addition, Sioned is an international and national educational consultant and conference speaker and has wide ranging networking and team working experiences. Sioned is also Chair of the Finance and Estates Committee and a member of the Academic Board and Strategic Group.
Alexander Bell Mae gan Alex, sy'n gyn-Drysorydd Cyngor Sir Clwyd, sgiliau rheoli gweithredol a busnes helaeth, gan gynnwys cyllid/archwilio a dealltwriaeth dwfn o'r gyfundrefn addysg. Arferai fod yn arholwr ac yn gynghorydd i CIPFA, ac y mae'n brysur gyda nifer o gyrff cymunedol lleol, fel aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan. Daw â chyfoeth o brofiad i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd, yn enwedig o safbwynt y sector gyhoeddus. Rhydd hefydd fewnbwn hynod werthfawr i archwilio effeithiol, monitro perfformiad a chynllunio a defnyddio adnoddau yn gymwys. Alex yw Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.		**Alexander Bell** Alex, former Treasurer of Clwyd County Council, has extensive executive management and business skills, including finance/audit and a deep understanding of the education system. He is a past examiner and advisor to CIPFA, and is actively involved with various local community bodies such as being a Board Member of the Bodelwyddan Castle Trust. Alex brings a wealth of experience to both Audit Committee and the Board especially from a public sector perspective, and provides invaluable input into effective auditing, monitoring performance, planning and the efficient use of resources. Alex is also Chair of the Audit Committee.

Fred Cunningham Mae Fred yn fab ffarm, a bu'n gweithio yng Ngweinyddiaeth Amaeth Gogledd Iwerddon. Cafodd hefyd, 10 mlynedd o brofiad o ddarlithio yng Ngholeg Amaethyddol Cymru, Aberystwyth cyn ei benodi yn Bennaeth Coleg Llysfasi ym 1983. Mae wedi goruchwylio datblygiadau mawr yn y Coleg, gan sicrhau fod Llysfasi yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer y rheiny sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad. Hefyd, mae'n aelod gweithgar o bwyllgorau a chyrff cenedlaethol ac mae ganddo rwydwaith cyfoethog o amaethwyr ac addysgwyr yn Nghymru a thu hwnt. Mae Fred yn aelod o'r Pwyllgor Polisi Cyflogaeth, Tâl a Iechyd & Diogelwch, y Pwyllgor Cyllid ac Ystadau, y Pwyllgor Chwilio, a Chadeirydd y Bwrdd Academaidd a'r Grŵp Cynllunio.		**Fred Cunningham** Fred is a farmer's son who worked in the Ministry of Agriculture, Northern Ireland. He also has had 10 years experience of lecturing in the Welsh Agriculture, Aberystwyth, prior to his appointment as Principal of Coleg Llysfasi in 1983. He has overseen major developments at the College, and ensured Llysfasi became a centre of excellence for those who live and work in the countryside. He is an active member of national committees and bodies and has a rich network of professional agriculturalists and educationalists both in Wales and beyond. Fred is also a member of the Employment Policy, Remuneration and Health & Safety Committee, Finance and Estates Committee, Search Committee, and Chairs the Academic Board and Planning Group.
Richard Wyn Davies Mae Richard yn Swyddog Estyniad gyda Chwmni Llaeth Cymru, ac yn gyn Ddarlithydd a Rheolwr Fferm y Coleg. Mae'n Gyfarwyddwr Arwerthwyr Ffermwyr Rhuthun, ac yn gyn-Gadeirydd Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr yng Nghlwyd. Daw â phrofiad enfawr o ddiwydiannau'r tir i'r Bwrdd, ac mae ganddo ddealltwriaeth hynod werthfawr o anghenion dysgwyr a gofynion sgiliau. Y mae'n gwbl ymwybodol o'r materion dwyieithog sydd yn ymwneud â dysgu a phwysigrwydd addysgu o safon uchel. Mae Richard hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.		**Richard Wyn Davies** Richard is the Extension Officer for Dairy Company Wales, and a former Lecturer and Farm Manager of the College. He is a Director of Ruthin Farmers Auction and past Chairman of the National Farmers Union in Clwyd. He brings to the Board an enormous experience of the land-based industry, and invaluable understanding of the learners' needs and skill requirements. He is fully aware of the bilingual issues related to learning and the importance of high quality teaching. Richard is also member of the Audit Committee.
Peter Edmondson Mae Peter yn ddysgwr Cymraeg profiadol sy'n astudio Cymraeg yn y Coleg ac yn aelod brwdfrydig o *Glwb Llanllawen,* y grŵp Dysgwyr Cymraeg. Mae gan Peter brofiad busnes a rheolaeth hynod werthfawr, a hefyd mae ganddo Dystysgrif Arsyllwr Uwch yr IAM yn ogystal â Thystysgrif Gyrru Uwch y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau. Fel myfyriwr, daw â phrofiad uniongyrchol y dysgwyr i'r Bwrdd. Y mae Peter hefyd yn aelod gweithgar ar ran y llywodraethwyr o *Grwpiau Ffocws Dysgwyr* y Coleg.		**Peter Edmondson** Peter is an advanced Welsh learner who studies Welsh in the College. He is an enthusiastic member of *Clwb Llanllawen,* the Welsh Learners Group. Peter has invaluable business and management background. He holds an IAM Senior Observer Certificate as well as a ROSPA Advanced Driving Certificate. He provides the Board with invaluable insight into learner experiences. Peter is also an active governor member of the College's *Learner Focus Groups*.

Glyn Evans Mae Glyn yn enghraifft da o unigolyn sydd wedi datblygu ymroddiad i ddysgu gydol oes. Fe ddechreuodd weithio i'r Coleg fel hyfforddwr technegol ac mae'n awr yn ddarlithydd sydd yn dysgu amryw agweddau ar beirianneg amaethyddol. Y mae'n uchel ei barch ymhlith ei fyfyrwyr a chanddo ddiddordeb arbennig mewn datblygu cyfleon dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, daw â chysylltiadau hynod werthfawr a helaeth gyda diwydiannau'r tir i'r Bwrdd. Mae Glyn yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Ystadau, y Bwrdd Academaidd a'r Grŵp Strategol.		**Glyn Evans** Glyn is a fine example of an individual who has adopted a commitment to life-long learning. He started working for the College as a technical instructor and is now a lecturer who teaches various aspects of agricultural engineering. He is highly regarded by his students and has a particular interest in developing learning opportunities in agricultural engineering through the medium of Welsh. He also brings to the table invaluable and extensive networking links with land-based industries. Glyn is a member of the Finance and Estates Committee, Academic Board and Strategic Group.
Dr Garth Higginbotham Mae gan Garth, sydd yn gyn AEM, gefndir helaeth mewn addysg, yn amrywio o athro ysgol i ddarlithydd prifysgol. Mae'n aelod brwdfrydig a blaengar o'r Bwrdd sydd yn defnyddio ei brofiad sylweddol ac eang o'r gyfundrefn addysg, safonau ac ansawdd i gynorthwyo'r Coleg i gyflawni ei Ddatganiad Cenhadaeth o *'ddarparu cyfleon dysgu o safon uchel. . .*' Mae Garth yn aelod o'r Bwrdd Academaidd a'r Grŵp Strategol. Mae hefyd yn darparu cyngor hynod werthfawr i Dîm Ansawdd y Coleg.		**Dr Garth Higginbotham** Garth, a former HMI, has an extensive background in education ranging from school teacher to university lecturer. Garth is an enthusiastic pro-active member of the Board who uses his considerable and wide-ranging knowledge of the education system, standards and quality to assist the College in achieving its Mission Statement of *'providing high quality learning…'* Garth is a member of the Academic Board and the Strategic Group. He also provides invaluable advice to the College's Quality Team.
Dr Peter Higson Peter yw Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'n gyn Brif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (dros dro). Mae ganddo brofiad enfawr o bob agwedd o arweinyddiaeth a rheolaeth o drin pobl, cyllid, monitro perfformiad a gweithdrefnau/prosesau, cynllunio strategol hyd at faterion yn ymwneud â safonau ac ansawdd. Mae Peter yn aelod cryf o Dîm Llysfasi sydd yn arwain drwy osod esiampl, ac y mae'n gwbl ymroddedig i gefnogi'r Coleg a'r gymuned y mae'n ei wasanaethu. Mae Peter hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Polisi Cyflogaeth, Tâl a Iechyd & Diogelwch, a'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu.		**Dr Peter Higson** Peter is the Chief Executive of the Welsh Assembly Government's Healthcare Inspectorate Wales and he is a former Chief Executive (Interim) of the Welsh Further Education Funding Council. He has vast experience of all aspects of leadership and management from managing people, finance, monitoring performance and procedures/processes, strategic planning through to standards and quality issues. Peter is a strong member of Tîm Llysfasi who leads through example, and is totally committed to supporting the College and the community that it serves. Peter is also a member of the Employment Policy, Remuneration and Health and Safety Committee. and the Search and Governance Committee.

Dafydd Ifans Mae Dafydd yn gyn Brif Weithredwr y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru. Y mae'n credu yn y dull trawsffurfiannol o arweinyddiaeth, ac y mae'n weithgar yn dylanwadu ar bolisïau/gweithdrefnau yn ymwneud ag iechyd, lles a dyletswydd gofal tuag at y dysgwyr a'r gweithwyr. Y mae sgiliau helaeth Dafydd yn ychwanegiad gwerthfawr i rôl llywodraethu corfforaethol Coleg Llysfasi. Mae'n aelod tîm cryf sydd yn cynorthwyo'r Coleg yn ei broses rheoleiddiol. Mae Dafydd yn aelod o'r Pwyllgor Polisi Cyflogaeth, Tâl a Iechyd & Diogelwch, a'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu. Ef hefyd yw'r llywodraethwr cyswllt mewn perthynas â materion iechyd a gofal.		**Dafydd Ifans** Dafydd is a former Chief Executive of the Welsh Assembly Government's Child and Family Court Advisory and Support Service, Cymru (CAFCASS). He believes in the transformational style of leadership, and actively influences policies/procedures in relation to the health, welfare and duty of care to the learners and employees. Dafydd's extensive skills and knowledge are a valuable addition to Coleg Llysfasi's corporate governance role. He is a strong team member who assists the College in its regulatory process. Dafydd is a member of the Employment Policy, Remuneration and Health and Safety Committee, and the Search and Governance Committee. He is also a link governor in relation to health and care issues.
Jayne Lewis Jayne yw Llyfrgellydd Adnoddau Dysgu a Chydlynydd Gyrfaoedd y Coleg, Warden rhan amser, ac aelod o'r Tîm Ansawdd. Mae hi'n uchel ei pharch ymhlith staff a dysgwyr ac yn gwbl ymroddedig i sicrhau cyfleon dysgu o ansawdd uchel i'r holl ddysgwyr. Chwaraeai rhan weithgar mewn datblygu staff, ac y mae hi wedi cydlynu'r Dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl, a Dyfarniad Ansawdd Gyrfaoedd Cymru yn llwyddiannus. Daw â chyfoeth o brofiad i'r Bwrdd ac yn arbennig y materion hynny sy'n ymwneud â'r dysgwr. Mae Jayne yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio, y Bwrdd Academaidd a'r Grŵp Strategol.		**Jayne Lewis** Jayne is the College's Learning Resources Librarian/Careers Co-ordinator, part-time Warden, and a member of the Quality Team. She is highly respected both by staff and the learners, and is totally committed to ensuring high quality learning opportunities for all learners. She actively participates in staff development and has successfully co-ordinated the Investors in People award, and the Careers Wales Quality Award. She brings a wealth of experience to the Board, and in particular issues relating to learner. Jayne is a member of the Audit Committee, Academic Board and the Strategic Group.
Y Cynghorydd Joan Lowe Mae Joan, sy'n gyn fyfyriwr y Coleg, gyda dylanwad blaengar yn ei chymuned fel Cynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a chyn Faer Wrecsam. Mae ei sgiliau cysylltiadau cyhoeddus a rhyng-bersonol, ei harbenigedd mewn gofal cymdeithasol/iechyd, difreiniad cymdeithasol a materion economaidd yn ogystal â'i chefndir ffermio yn rhoi i'r Bwrdd ffynhonnell amrywiol a chyfoethog o arbenigedd. Bu Joan hefyd yn Lywodraethwr ysgol gynradd a rheolodd uniad dwy ysgol yn llwyddiannus. Y mae hi'n gwbl ymroddedig i'w rôl fel Llywodraethwr y Coleg. Y mae Joan yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.		**Councillor Joan Lowe** Joan, a former student of the College, is an active influence on her community as a Wrexham County Borough Council Councillor and former Mayor of Wrexham. Her public relations and inter-personal skills, specialist expertise in social care/health, social deprivation and economic issues as well as her farming background provides a diverse and rich source of expertise to the Board. Joan has also been a Governor of a primary school and successfully managed the merger of two schools. She is totally committed to her role as Governor of the College. Joan is a member of the Audit Committee.

Yr Athro Barry Parsons Mae Barry yn Athro Biowyddorau byd-enwog, ac yn Athro yn y Gyfadran Iechyd ym Mhrifysgol Leeds Metropolitan. Fel Deon/Cyfarwyddwr ymchwil ac astudiaethau ôl-raddedig, y mae wedi casglu gorolwg masnachol o arbenigedd rheolaethol mewn Addysg Bellach/Addysg Uwch gan gwmpasu ariannu Ewropeaidd a rheoli contractau, ceisiadau am grantiau, monitro safonau academaidd a sicrhau ansawdd a meincnodi. Mae wedi teithio led-led y byd i draddodi darlithoedd yn ei faes. Daw â llawer iawn o arbenigedd academaidd, ariannol ac ansawdd i'r Bwrdd. Mae Barry yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Ystadau ac yn aml yn cynrychioli'r Corff Llywodraethol mewn cyfarfodydd allweddol.		**Professor Barry Parsons** Barry is a world-wide renowned Professor of Biosciences, and is a Professor in the Faculty of Health at Leeds Metropolitan University. As Dean/Director of research and postgraduate studies, he has accumulated a commercial overview of Further Education/Higher Education management expertise encompassing European funding and contract management, grant application and monitoring academic standards, quality assurance and benchmarking. Barry has travelled the world to deliver key note lectures in his field of study. He brings a vast amount of academic, financial and quality expertise to the Board. Barry is a member of the Finance and Estates Committee and frequently represents the Governing Body at key meetings.
Elaine Rogers Mae Elaine yn aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Archwilio. Uwch Swyddog yn Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw ei swydd ac wedi ei lleoli yn Wrecsam. Mae ganddi gyfoeth o brofiad, ac wedi ymrwymo i sicrhau fod y Coleg yn cwrdd yn effeithiol â safonau statudol ac archwilio Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ei gwybodaeth eang a'i phrofiad helaeth ynghŷd â'i harbenigedd archwilio yn gyfraniad hynod werthfawr i lywodraethu effeithiol**.**		**Elaine Rogers** Elaine is a co-opted member onto the Audit Committee. She is a Senior Officer for HM Revenue and Customs department, based in Wrexham. Elaine, with her wealth of experience, is committed to ensure that the College meets the Welsh Assembly Government's statutory and auditing standards effectively. Her breadth of knowledge and vast experience along with her auditing expertise provides an invaluable contribution to effective governance.
Marjorie Richards Mae gan Marjorie fel Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd Cwmni busnes peirianneg amgylcheddol o fri rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn Rhuthun, wybodaeth a dealltwriaeth helaeth o faterion busnes lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd. Mae wedi dangos llawer o ymroddiad i ddatblygu cysylltiadau a phartneriaethau rhwng addysg a busnes am nifer o flynyddoedd, ynghyd â magu perthynas bwysig rhwng y Coleg a'r gymuned leol. Mae ei gwybodaeth leol a'i hymwneud blaengar yn y gymuned a'r cyfuniad o brofiad busnes yn ei galluogi i gefnogi'r Coleg mewn nifer o feysydd allweddol gan gynnwys materion sydd yn ymwneud â chyfleon cyfartal. Mae Marjorie yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio, y Bwrdd Academaidd a'r Grŵp Strategol, ac mae hi hefyd yn cefnogi'r Coleg mewn ymchwil gymhwysol a throsglwyddo technoleg.		**Marjorie Richards** Marjorie as a Company Director/Secretary of a Rhuthun based, internationally renowned environmental engineering business has extensive knowledge and understanding of local, national and European business issues. She has shown great commitment in developing educational business links and partnerships for a number of years, and fostering important relationships between the College and the local community. Her local knowledge and proactive involvement in the community blended with her business experiences enables her to support the College in several key areas which includes issues of equal opportunities. Marjorie is a member of the Audit Committee, Academic Board and the Strategic Group, and also supports the College in applied research and technology transfer.

Menna Roberts Menna yw Rheolwr Gyfarwyddwr *Cwmni Brodwaith,* Pentrefoelas, ac mae hi hefyd yn bartner ar fferm. Mae ganddi ddiddordeb brwd mewn addysg bellach gan gredu ei fod yn faes allweddol sy'n dod â budd i'r unigolyn ac i ddyfodol cefn gwlad. Mae'n ystyried Coleg Llysfasi yn goleg blaengar ac fel Llywodraethwraig mae'n falch o allu rhannu ei gwybodaeth hynod werthfawr a helaeth o redeg busnesau llwyddiannus er mwyn helpu i gyflawni amcanion strategol y Coleg gyda'i dealltwriaeth glir o anghenion y gymuned ddwyieithog. Mae Menna hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Ystadau.		**Menna Roberts** Menna is a Managing Director of *Cwmni Brodwaith,* Pentrefoelas and is a partner on a farm. She has a keen interest in further education and believes that it is a key area which benefits both the individual and the future of the countryside. Menna considers Coleg Llysfasi as a progressive college and as a Governor is pleased and able to share her invaluable and extensive knowledge of running successful businesses to help achieve the College's strategic objectives with her clear understanding of the needs of the bilingual community. Menna is also a member of the Finance and Estates Committee.
Rees Roberts OBE Rees yw Cadeirydd *Hybu Cig Cymru,* ac y mae'n ffermwr hynod lwyddiannus. Y mae'n lywodraethwr gyda diddordeb arbennig mewn hyrwyddo a datblygu dysgu a dealltwriaeth o ddiwydiannau'r tir i'r rheiny sydd yn byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad. Rhydd Rees gefnogaeth gref i'r Coleg mewn llawer modd, o gynghori ar anghenion y dysgwr a'r angen i fod o flaen y gad efo datblygiadau yng nghefn gwlad. Mae'n cyfrannu tuag at benderfyniadau strategol ar lefel uchel gan dynnu ar ei dreiddgarwch hynod werthfawr a'i ymwybyddiaeth uniongyrchol o fusnes a rheolaeth. Mae Rees yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Ystadau.		**Rees Roberts OBE** Rees is Chair of *Meat Promotion Wales* and a highly successful farmer. He is a governor with a particular interest in furthering and developing learning and understanding of the land-based industry, and of those who live and work in the countryside. Rees strongly supports the College in many ways from advising on the learner's needs to keeping abreast of key developments in the countryside. He also contributed to high level strategic decisions by drawing upon his invaluable insight and direct involvement in business and management. Rees is a member of the Finance & Estates Committee.
Delyth Geraint Williams Mae Delyth yn bartner gyda Llewelyn-Jones a'i Gwmni, Cyfreithwyr yn Rhuthun. Mae'n gallu rhannu gyda'r Coleg ei gwybodaeth a phrofiad hynod werthfawr ac eang mewn cysylltiad â chyfraith cyflogaeth a rheolaeth effeithiol o adnoddau dynol. Gwêl ei chyfraniad fel un yn medru cefnogi'r Coleg i ddenu a chadw gweithlu o safon uchel, ac mae hi'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau fod Tîm Llysfasi yn gallu croesawu dysgwyr o fewn "*awyrgylch groesawgar, gofalgar a chefnogol*". Pwysleisia bwysigrwydd dyletswydd gofal tuag at y staff ac mae'n deall a chefnogi'n llwyr ethos ddwyieithog Llysfasi. Mae Delyth yn aelod o'r Pwyllgor Polisi Cyflogaeth, Tâl a Iechyd & Diogelwch a'r Pwyllgor Chwilio.		**Delyth Geraint Williams** Delyth is a partner with Llewelyn-Jones & Co, Solicitors in Rhuthun. She is able to share her invaluable and wide-ranging knowledge and experience in relation to employment law and the effective management of human resources with the College. Delyth sees her role as being able to support the College to attract and retain a high quality workforce and acknowledges the importance of ensuring that Tîm Llysfasi is able to welcome learners to the college in a *welcoming, caring and supportive environment.* She stresses the importance of duty of care of staff and fully understands and supports the bilingual ethos of Llysfasi. Delyth is a member of the Employment Policy, Remuneration and Health and Safety Committee and the Search Committee.

Gwilym Williams Mae Gwilym yn aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Cyllid ac Ystadau. Fel cyn Reolwr Banc yr HSBC, daw â barn a chyngor doeth ar faterion sydd yn ymwneud â chyllid ac archwilio i'r pwyllgor. Mae'n tynnu ar ei brofiad enfawr o reoli ar lefel uchel i gynorthwyo'r Coleg i gwrdd â'i amcanion strategol i'r dysgwr, y gweithlu, yr economi leol a'r gymuned y mae'n ei gefnogi. Mae Gwilym yn cyfrannu'n brysur i'w gymuned leol, ac newydd argraffu llyfr yn olrhain hanes Clwb Golff Dinbych. Mae Gwilym hefyd wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio,		**Gwilym Williams** Gwilym is a co-opted member onto the Finance and Estates Committee. He is the former Bank Manager of HSBC. He brings sound judgement and advice in financial and auditing issues and draws upon his vast high level management experiences to assist the College in meeting its strategic objectives to the learner, the employees, the local economy and the community it supports. Gwilym actively contributes to his local community, and has recently published a book detailing the history of the Denbigh Golf Club. Gwilym has also served on the Audit Committee.
Rod Williams Mae Rod yn gyn Reolwr Amaethyddol Rhanbarthol yng Nghymru o'r HSBC, wedi ei leoli yng Ngogledd Cymru, ac mae ganddo broffil uchel iawn yn lleol ac yn genedlaethol. Ar hyn o bryd mae'n aelod o Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae ei sgiliau busnes mewn cyllid a rheolaeth, ynghyd â gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddiwydiannau'r tir a'i ymroddiad i ddiogelu anghenion cefn gwlad ddwyieithog wedi bod o fudd enfawr i'r Coleg. Daw â llawer iawn o frwdfrydedd, cyfeiriad strategol a chyngor doeth i'r Bwrdd er budd y dysgwr, y gweithlu a'r Coleg. Mae Rod yn aelod o'r Pwyllgor Polisi Cyflogaeth, Tâl a Iechyd & Diogelwch, y Pwyllgor Chwilio, a'r Pwyllgor Cyllid ac Ystadau.		**Rod Williams** Rod is a former Regional Agricultural Manager in Wales for HSBC, based in North Wales, and has a very high profile locally and nationally. He is currently a Council member of the Countryside Council for Wales. His business skills in finance and management along with detailed knowledge and understanding of the land-based industry, and his commitment to safeguarding the needs of a bilingual countryside has benefited the College enormously. He brings a vast amount of enthusiasm, strategic direction and sound advice to the Board for the benefit of the learner, the employees and the College. Rod is a member of the Employment Policy, Remuneration and Health and Safety Committee, the Search Committee, and the Finance and Estates Committee.
Y Cynghorydd Rhys Hughes Mae Rhys yn ffermwr llwyddiannus, gyda dealltwriaeth uniongyrchol o ddiwydiant tir-seiliedig, ag anghenion y rhai hynny sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad. Mae'n mwynhau ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gwarchod y gymuned wledig, ac mae dros y blynyddoedd wedi neilltuo cryn dipyn o'i amser yn cefnogi'r gymuned leol. Mae'n Gynghorydd Sir ar Gyngor Sir Ddinbych, ac yn gwasanaethu ar ddau o'u Pwyllgorau Archwiliad sef Pwyllgor Dysgu Gydol Oes, a Phwyllgor Cynllunio ac Adnoddau. Mae'n aelod o fwrdd rheoli Ysgol Dinas Bran, ac o glwb rheoli Tîm Peldroed Ieuenctid Llangollen. Daw a chyfoeth o brofiad amhrisiadwy i'r Bwrdd Llywodraethol yn arbennig o safbwynt y dysgwyr. Mae Rhys yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.		**Councillor Rhys Hughes** Rhys, a successful farmer, has first hand understanding of land-based industries, and the needs of those who live and work in the countryside. Rhys enjoys and appreciates the importance of safeguarding the rural community and has over the years devoted a large amount of his time supporting the local community. He is a County Councillor for Denbighshire County Council, serving on two scrutiny Committees namely Lifelong Learning, and Planning & Resources. Rhys is a member of Ysgol Dinas Bran's Governors and of the Llangollen youth football management team. He brings a wealth of invaluable experience to the Board, particularly from the learner perspective. Rhys is a member of the Audit Committee.